# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 16 Chwefror 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg

**Arsyllwyr:** Y Cynghorwyr Ray Bartley, Meirick Davies, Martyn Holland, Huw Hilditch-Roberts, Dewi Owens, Merfyn Parry, Arwel Roberts a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a Thir y Cyhoedd (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Addysg (KE), Cyllid, Asedau a Thai (JG), a Chynllunio a Diogelwch y Cyhoedd (GB); Rheolwr Rhaglen (JC); Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol (GD); Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddydd Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Y Cynghorydd Meirick Davies – Personol – Eitem 9 yr Agenda – modurdy rhent y cyngor

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Personol – Eitemau 5 a 6 yr Agenda – Llywodraethwr Ysgol Pen Barras

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2016.

Tudalen 9 – Eitem 6: Cyllideb 2016/17 (Cynigion Terfynol – Cam 6) gofynnodd y Cynghorydd Eryl Williams am ddiweddariad ar ddyraniadau grant ers y cyfarfod diwethaf a thynnodd sylw at yr angen i'r cyngor gofnodi'r dyraniadau hynny, gan gynnwys toriadau i gyllid grant, at ddibenion tryloywder. Cadarnhawyd na wnaeth y

Gweinidog unrhyw gyhoeddiadau pellach o ran dyraniadau grant a oedd yn tueddu i gael eu talu'n raddol dros gyfnod o fisoedd. O ran awdurdodau gwledig oedd wedi bod yn destun mwy o doriadau o ganlyniad i setliad drafft y llywodraeth leol, mae cyllid wedi bod ar gael o gronfeydd Llywodraeth Cymru ers hynny.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2016 fel gwir gofnod ac fe'u harwyddwyd gan yr Arweinydd.*

## 5 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad sy'n rhoi manylion y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth gytûn y gyllideb. Darparodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.418m ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- cyflawnwyd 91% o arbedion cytûn hyd yma (targed £7.3m) a rhagwelwyd bod mwyafrif yr arbedion sy'n weddill yn cael eu cyflawni erbyn 2016/17 fan hwyraf
- amlygwyd amrywiadau allweddol o dargedau cyllidebau neu arbedion yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gymeradwyo treuliau annisgwyl o £4.8m i gefnogi cynlluniau Glasdir ac Ysgol Carreg Emlyn; £1.5m i'r Cynllun Cyfalaf ynghyd â dileu'r £140,000 o ddyledion sy'n ddyledus gan The Scala Prestatyn Company Limited.

Codwyd y materion canlynol yn ystod y ddadl –

- canmolodd y Cabinet y buddsoddiad sylweddol mewn prosiectau cyfalaf mawrion, yn enwedig o gofio'r cyfnod ariannol anodd, oedd yn cynnwys buddsoddiadau mewn Ysgolion, Glan Môr y Rhyl, Datblygiad Nova a Chynllun Datblygu Arfordirol Gorllewin y Rhyl, a llongyfarchodd bawb oedd ynghlwm â'r prosiectau hynny
- amlygwyd hefyd y buddsoddiad ym mhrosiect Ysgolion 21ain Ganrif Ysgolion Cynradd Rhuthun ac roedd yr aelodau'n falch o nodi bod cynlluniau Glasdir ac Ysgol Carreg Emlyn ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni ym mis Medi 2017 ac ychwanegwyd diweddariad ar y prosiectau hynny at adroddiad cyllid rheolaidd y Cabinet. Cytunwyd, o ran Glasdir, gyfeirio yn y dyfodol at 'safle ar y cyd' yn wahanol i 'ysgol ar y cyd' er mwyn dynodi'r ddwy ysgol ar y safle
- yn dilyn cadarnhad o ffigurau terfynol diwedd y flwyddyn, byddai'r driniaeth o danwariant yn cael ei hystyried gan y Cabinet yn yr adroddiad alldro ariannol - rhagwelwyd y byddai sawl gwasanaeth yn cadw eu tanwariant i barhau gyda phrosiectau arfaethedig yn y flwyddyn ariannol nesaf
- cadarnhawyd bod y Cynllun Corfforaethol yn rymus ac, ar sail y tybiaethau presennol, roedd adnoddau yn eu lle i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni
- trafodwyd effaith andwyol tywydd difrifol ar y priffyrdd hefyd a'r gwaith cynnal a chadw ffyrdd ychwanegol angenrheidiol o ganlyniad i lifogydd – ceisiwyd cyllid Llywodraeth Cymru ond os nad oedd cyllid allanol ar gael, byddai'r gwaith angenrheidiol yn cael ei ariannu gan y Gronfa Tywydd Difrifol

- cyfrannodd yr oedi mewn gwaith prosiect a newidiadau yn y dull cynllunio busnes at danwariant yn y gwasanaeth Datblygu Economaidd a Busnes a rhoddwyd sicrwydd mewn perthynas â'r bwriad i gario cyllid ymlaen yn y flwyddyn ariannol nesaf i symud y prosiectau arfaethedig hynny ymlaen.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn nodi'r cyllidebau a osodwyd ar gyfer 2015/16 a symud ymlaen yn erbyn y strategaeth gyllideb gytûn;*

*(b) yn cymeradwyo'r dyraniad o dreuliau annisgwyl o £4.8m i gefnogi cynlluniau Glasdir ac Ysgol Carreg Emlyn yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a fydd yn cael ei ariannu trwy ryddhau cyllidebau refeniw o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion cyffredinol.*

*(c) yn cymeradwyo dileu dyledion sy'n ddyledus gan The Scala Prestatyn Company Limited sy'n gwneud cyfanswm o £140,000 ac yn*

*(d) cymeradwyo'r dyraniad o £1.5m o adolygiad darpariaethau'r fantolen a threuliau annisgwyl yn y flwyddyn i'r Cynllun Cyfalaf.*

**6 CYNNIG CAU YSGOL LLANBEDR DC AR 31 AWST 2016 GYDA'R DISGYBLION PRESENNOL YN TROSGLWYDDO I YSGOL BORTHYN, RHUTHUN, YN DIBYNNU AR DDEWIS Y RHIENI**

[Ceisiodd yr Arweinydd gael sicrwydd gan aelodau'r Cabinet a gadarnhaodd eu bod yn fodlon iddynt gael digon o gyfle i astudio'r holl wybodaeth mewn perthynas â'r eitem hon er mwyn gwneud penderfyniad deallus.]

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd at y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac esboniodd fod rhaid i'r Cabinet benderfynu ar y cynnig gyda meddwl agored gan ystyried y ffactorau perthnasol a osodwyd ym mharagraffau 4.5, 4.8 a 4.9 yr adroddiad.

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad sy'n rhoi manylion y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn dilyn cyhoeddiad yr hysbysiad statudol o'r cynnig i'w hystyried. Cyfeiriodd at weledigaeth y Cyngor ar gyfer addysg a buddsoddiad sylweddol mewn ysgolion fel rhan o'r agenda moderneiddio ysgolion. Gwnaed y cynnig fel rhan o adolygiad ardal ehangach Rhuthun a gosodwyd yr achos am newid yn yr adroddiad yn seiliedig ar amcanion y Cyngor i leihau'r lleoedd dros ben, cyflawni dosbarthiad tecach a mwy cyfiawn o gyllid ysgol a darparu mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ystâd yr ysgol. Roedd y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal yn cynnwys (1) Addysg Cyfrwng Cymraeg, (2) Addysg Cyfrwng Saesneg, (3) Addysg Seiliedig ar Ffydd Cyfrwng Cymraeg, a (4) Addysg Ffydd Cyfrwng Saesneg. Rhoddodd wybod y byddai pedair elfen y ddarpariaeth yn parhau o weithredu'r cynnig.

Ystyriodd y Cabinet y gwrthwynebiadau yn yr adroddiad ynghyd â'r dadleuon ar gyfer y cynnig a'r ffactorau y manylwyd arnynt yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Ceisiodd yr aelodau gael eglurder ynghylch y cyfeiriadau at ffedereiddio yn

ymatebion yr ymgynghoriad ac a fyddai'r dewis hwn yn bodloni amcanion allweddol y Cyngor a chwestiynwyd pam nad ymgynghorwyd ynghylch cynigion eraill. Codwyd cwestiynau hefyd mewn perthynas â chapasiti Ysgol Borthyn i letya disgyblion Ysgol Llanbedr a chynnig darpariaeth gofal plant cofleidiol. Ceisiwyd sicrwydd hefyd mai'r cynnig hwn oedd yn cynrychioli'r dewis gorau i fodloni amcanion y Cyngor.

Ymatebodd y swyddogion fel a ganlyn –

- esboniwyd bod dewisiadau eraill i'r cynnig wedi'u hystyried, gan gynnwys yr achos o blaid ffedereiddio, yn gynharach yn y broses ymgynghori. Ystyriwyd y manteision a'r anfanteision ac er bod gan ffedereiddio nifer fawr o fanteision, nid aeth i'r afael ag amcanion allweddol y Cyngor i fynd i'r afael â'r lleoedd dros ben, cyflawni dosbarthiad tecach a mwy cyfiawn o gyllid ysgol, na darparu mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ystâd yr ysgol
- roedd y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gofyn i'r Cyngor weithio gyda phartneriaid allweddol megis yr Esgobaeth a chynhaliwyd ymgynghoriad ym mis Ebrill/Mai. Cynhaliwyd dadansoddiad o ddewisiadau eraill a rhoddwyd rhesymau o ran pam nad aed ar drywydd y dewisiadau hynny, gan gynnwys ffedereiddio. Cynhwyswyd y dewisiadau eraill hyn yn yr adroddiad ymgynghori ffurfiol ochr yn ochr â'r dewis oedd yn cael ei ffafrio gan y Cyngor
- rhoddwyd sicrwydd fod y cynnig yn bodloni gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac yn cynrychioli'r dewis gorau i fodloni amcanion allweddol y Cyngor i fynd i'r afael â lleoedd dros ben, gostwng y gost fesul disgybl a darparu ystâd ysgol effeithlon a chynaliadwy
- cadarnhawyd petai pob plentyn o Ysgol Llanbedr yn dewis trosglwyddo i Ysgol Borthyn, byddai lle i gefnogi'r trosglwyddiad hwnnw – gallai fod angen rhywfaint o waith mân gyflunio i'r lle addysgu
- derbyniwyd bod y cyfleuster gofal plant cofleidiol presennol yn Ysgol Llanbedr yn cael ei werthfawrogi'n fawr ond roedd darpariaeth gofal cofleidiol ar gael mewn ysgolion eraill yn yr ardal, gan gynnwys Ysgol Borthyn a phetai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai'r swyddogion yn gweithio i helpu cefnogi'r ddarpariaeth honno.

Siaradodd y Cynghorydd Huw Williams yn erbyn y cynnig a chwestiynodd y gost oedd ynghlwm, gan gynnwys addasu Ysgol Borthyn i letya disgyblion ychwanegol. Amlygodd nad oedd y cyllid i fwrw ymlaen â chynigion adolygu gweddill ardal Rhuthun yn dibynnu ar gau'r ysgol a byddai cau'r cyfleuster gofal plant cofleidiol yn arwain at golli pedair swydd amser llawn. Dadleuodd y Cynghorydd Williams y dylid mynd ar drywydd y dewis ffedereiddio a nododd faint y gwrthwynebiad i'r cau gan ddweud y byddai'r ysgol yn debygol o fod yn llawn pe na bai dan fygythiad o gael ei chau. Yn olaf, holodd a oedd y Cabinet yn hyderus y byddai'r Gweinidog yn cynnal ei benderfyniad os byddent yn penderfynu cau'r ysgol.

Ymatebodd y Cynghorydd Eryl Williams a'r Pennaeth Addysg fel a ganlynol –

- byddai unrhyw addasiadau i Ysgol Borthyn yn golygu ail-gyflunio lle dysgu a byddai'r costau'n fach iawn - ni fyddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol
- byddai'r swyddogion yn gweithio gyda darparwyr gofal plant cofleidiol ac yn cynnig cefnogaeth fel y bo'n briodol

- derbyniwyd nad oedd cyflawni gweddill cynigion adolygiad ardal Rhuthun yn dibynnu'n ariannol ar gau unrhyw ysgol unigol ond ni fyddai cadw'r ysgol yn agored yn mynd i'r afael â'r amcanion a'r ffactorau allweddol a nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion o ran lleoedd dros ben, ysgolion cynaliadwy a sicrhau dosbarthiad tecach o gyllid disgyblion
- byddai'r Cabinet yn gwneud penderfyniad deallus ar rinweddau'r cynnig ac ni allai rhagatal camau gweithredu yn dilyn y broses honno.

Siaradodd y Cynghorydd Dewi Owens hefyd yn erbyn y cynnig gan gredu iddo gael ei ddatblygu gyda chau mewn golwg yn hytrach nag achub yr ysgol. Roedd yn beio'r Cyngor am y cwymp yn niferoedd y disgyblion a theimlai y dylid gwneud mwy i fynd i'r afael â hynny. Cododd y Cynghorydd Martyn Holland bryderon hefyd yn dadlau bod cau ysgolion eraill wedi arwain at ysgolion ardal newydd ond roedd yr achos hwn yn ymwneud â throsglwyddo disgyblion i Ruthun a chodwyd cwestiynau mewn perthynas â chapasiti yn Ysgol Borthyn. Dywedodd hefyd y byddai costau'n gysylltiedig â throsglwyddo disgyblion ac ni fyddai'r cyngor yn elwa'n ariannol ar dderbyniad cyfalaf oherwydd nid oedd yn berchen ar y tir nac adeilad yr ysgol - byddai ffedereiddio'n arwain at arbed costau. Rhybuddiodd yn erbyn gwneud penderfyniad i gau'r ysgol ar hyn o bryd oherwydd nid oedd effaith ysgolion newydd Glasdir ar ymarferoldeb Ysgol Borthyn i'r dyfodol yn hysbys eto - gallai ymadawiad disgyblion i'r ysgolion newydd arwain at golli darpariaeth seiliedig ar ffydd yn yr ardal.

Ymatebodd y Cynghorydd Eryl Williams fod galw am addysg seiliedig ar ffydd cyfrwng Saesneg yn yr ardal a allai gael ei bodloni gan Ysgol Borthyn ac ystyriwyd bod yr ysgol yn gynaliadwy wrth symud ymlaen – byddai gweithredu'r cynnig yn sicrhau bod y cyfuniad presennol o ddarpariaeth addysgol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac ysgolion seiliedig ar ffydd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael eu cadw. Ailadroddwyd hefyd fod yr holl ddewisiadau eraill wedi'u hystyried, gan gynnwys ffedereiddio, ond yn dilyn dadansoddiad, penderfynwyd peidio â dewis ffedereiddio oherwydd nid oedd yn bodloni amcanion allweddol y Cyngor.

Rodd y Cabinet yn fodlon fod prosesau priodol wedi'u dilyn a'u bod yn cydymffurfio â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Derbyniodd y Cabinet fod angen gwneud penderfyniadau anodd wrth symud yr agenda moderneiddio ysgolion ymlaen ond ystyriwyd mai gweithredu'r cynnig oedd y dewis gorau er mwyn sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth addysg gynaliadwy yn ardal Rhuthun i'r dyfodol. Wrth symud yr argymhellion, cydnabyddodd y Cynghorydd Eryl Williams y penderfyniad anodd ond ailadroddodd ei ymrwymiad i sicrhau darpariaeth a chyfleusterau addysg gynaliadwy ansawdd uchel i bob disgybl yn y sir.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a)* *yn nodi canfyddiadau'r adroddiad yn gwrthwynebu, ac*

*(b)* *yn dilyn ystyriaeth o'r uchod, bod y Cabinet yn cymeradwyo gweithrediad y cynnig i gau Ysgol Llanbedr o 31 Awst 2016 ymlaen gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Borthyn, Rhuthun yn amodol ar ffafriaeth y rhieni.*

Gohiriwyd y cyfarfod yn y fan hon (11.10 a.m.) am luniaeth.

## 7 Y DIWEDDARAF AM BROSIECT DATBLYGU GLAN Y MÔR Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar gynnydd gyda phrosiect Datblygu Glan Môr y Rhyl a cheisiodd gymeradwyaeth i fwrw ymlaen i gytundeb datblygu mwy ffurfiol ar y telerau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Penodwyd Neptune Development Limited (NDL) fel y partner datblygu dewisol i gynorthwyo'r Cyngor wrth adnewyddu'r arlwy hamdden a chyfleusterau ar gyfer llain arfordirol y Rhyl. Roedd cynigion bellach wedi datblygu'n ddigonol i symud i gytundeb mwy ffurfiol a fyddai'n sicrhau bod modd asesu a deall yn llawn ymarferoldeb ariannol elfennau unigol y cynllun a'r effaith ar y datblygiad ehangach cyn caniatáu cymeradwyaeth. Roedd manylion y cynllun, a rannwyd yn bum parth amlwg ar hyd yr arfordir, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Bu ymateb y cyhoedd i'r cynigion yn aruthrol o gadarnhaol.

Croesawodd y Cabinet y prosiect datblygu a'r cynigion i adfywio'r Rhyl gan nodi y byddai angen buddsoddiad sylweddol, sy'n debygol trwy gyfuniad o grantiau llywodraeth, buddsoddiad sector preifat a rhai cyfraniadau gan y cyngor. Cadarnhawyd bod NDL wedi modelu cynllun ymarferol o bosibl yn seiliedig ar nifer o dybiaethau ond byddai angen datblygu achosion busnes manwl ar gyfer pob elfen i asesu ymarferoldeb unigol a'r effaith ar y cynllun cyffredinol. O ran amserlenni ar gyfer datblygu, cynghorwyd yr aelodau ynghylch hyblygrwydd y cytundeb cyffredinol a fyddai'n galluogi ar gyfer symud gwahanol gamau ymlaen wrth iddynt ddatblygu. Cafodd llinell amser mynegol ei gynnwys yn yr adroddiad yn seiliedig ar yr hyn yr oedd NDL yn ystyried bod modd ei gyflawni, ond byddai amserlenni mwy pendant yn cael eu cadarnhau wrth i'r broses symud yn ei blaen. Nodwyd bod y Bwrdd Prosiect Cyfleusterau Arfordirol yn goruchwylio datblygiad y prosiect a gofynnodd y Cynghorydd Eryl Williams fod cofnodion y cyfarfodydd hynny ar gael yn gyhoeddus i sicrhau bod yr holl aelodau'n ymwybodol o'r gwaith oedd yn cael ei wneud.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn rhoi cymeradwyaeth i fynd i Gytundeb Adfywio Cyffredinol ar sail y modelau cyllido a osodwyd yn hynny; gyda phob elfen o'r adfywio'n cael ei chyflwyno'n raddol ac yn destun cymeradwyaeth bellach (boed gan y Cabinet neu drwy Benderfyniad wedi'i Ddirprwyo yn dibynnu ar y gwerth) i fwrw ymlaen, ac*

*(b) yn cymeradwyo sefydlu cyllideb prosiect a ariennir trwy ailddyrannu'r adnoddau corfforaethol presennol.*

## 8 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad gan geisio cefnogaeth y Cabinet o brosiectau a nodwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf

2016/17 fel a argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac a fanylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau trwy'r adroddiad ac ymhelaethodd ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer buddsoddiad cyfalaf i brosiectau un tro a dyraniadau bloc ar gyfer rhaglenni gwaith parhaus. Cyfeiriwyd at waith y Grŵp Buddsoddi Strategol wrth adolygu ceisiadau am ddyraniadau a darparwyd crynodeb o'r argymhellion. Yn sgil bod cyllid cyfalaf annigonol ar gael i gwmpasu pob prosiect, gwnaed nifer o ddyraniadau dros dro yn amodol ar werthu asedau.

Mewn ymateb i gwestiynau, gwnaeth y Cynghorydd Julian Thompson-Hill –

- esbonio'r broses benthyca ddarbodus sy'n cynghori bod angen i'r cyngor ddibynnu'n fwyfwy ar ei adnoddau ei hun i fuddsoddi yn sgil y gostyngiad parhaus yng ngwerth go iawn setliadau cyfalaf Llywodraeth Cymru
- cadarnhau bod cynigion cynnal cyfalaf ysgolion a heb fod i ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal a chadw hanfodol megis gwaredu asbestos. Ymhelaethodd y Cynghorydd Eryl Williams ar brif sefyllfa'r Cyngor o ran troi at gyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif i fuddsoddi mewn adeiladau a chyfleusterau ysgolion fel rhan o'r agenda moderneiddio ysgolion
- dweud bod y cynigion am waith Priffyrdd yn cynnwys gwelliannau i ffyrdd a phontydd, goleuadau strydoedd a diogelwch ffyrdd a blaenoriaethwyd y dyraniadau ar sail angen - rhoddodd y Cynghorydd David Smith wybod bod gwariant ar gynlluniau unigol wedi'u trafod gan Grwpiau Ardal Aelodau ac awgrymwyd mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau/pryderon yn hyn o beth yn y fforwm hwnnw neu eu codi'n uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth Priffyrdd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y prosiectau y manylir arnynt yn Atodiad 1 i'r adroddiad i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2016/17 yn cael eu cefnogi a'u hargymell i'r Cyngor llawn.*

## 9 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2016/17

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i'r cynnydd arfaethedig mewn rhent ar gyfer tai cyngor a chymeradwyaeth Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2016/17.

Arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau trwy ffigurau'r gyllideb a'r tybiaethau lefel incwm a gyfrifwyd gan ystyried Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol a'r mecanwaith i godi rhenti. Dangosodd yr adolygiad blynyddol o Gynllun Busnes y Stoc Tai (CBST) iddo barhau'n rymus ac yn ariannol hyfyw ac y cafwyd buddsoddiad sylweddol mewn gwella'r stoc tai presennol ac adeiladu stoc tai newydd mawr ei hangen.

Yn ystod yr ystyriaeth o'r adroddiad, trafodwyd y materion canlynol –

- bu pum gwerthiant Hawl i Brynu (HiB) yn 2015/16 hyd yma a rhagwelwyd un gwerthiant y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol, fodd bynnag profwyd y CBST gyda'r dybiaeth o ddim gwerthiant ac ni chafwyd unrhyw effaith andwyol.

Eglurwyd nad oedd angen gwerthiant HiB bellach er mwyn ariannu'r cynllun oherwydd y setliadau cymhorthdal gwell na'r disgwyl dros amser. Cydnabuodd aelodau'n flaenorol y gallai gwerthiannau HiB fod yn wrthgynhyrchiol i dyfu'r stoc tai ac yn dilyn Hysbysiad o Gynnig i'r Cyngor, awdurdodwyd y swyddogion i adrodd nôl ar achos busnes i ohirio gwerthiannau HiB. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai'r achos busnes yn cwmpasu gwerthiannau HiB ar draws y sir ac a fyddai unrhyw eithriadau ar gyfer meysydd penodol yn berthnasol. Ar hyn o bryd, ail-fuddsoddwyd 25% o werthiannau HiB mewn stoc tai a defnyddiwyd 75% i ad-dalu dyledion

- roedd adolygiad o fodurdai'r cyngor yn mynd rhagddo a hefyd yn rhan o'r dewisiadau ar gyfer adeilad newydd. Nid oedd y rhent yn talu am gostau cynnal a chadw ac roedd rhai modurdai'n cael eu defnyddio fel cyfleusterau storio ac nid ar gyfer eu diben bwriadedig – roedd y materion hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad. Amlygwyd pwysigrwydd cadw modurdai'r cyngor er mwyn cadw'r briffordd yn rhydd o dagfeydd a chadarnhaodd y swyddogion y byddai modurdai sy'n cynnig lleoedd parcio ceir gwerthfawr yn cael eu hystyried felly o fewn yr adolygiad. Eglurwyd bod y rhent ar gyfer tenantiaid nad ydynt yn denantiaid y Cyngor ychydig yn uwch oherwydd ei fod yn cynnwys TAW
- cadarnhawyd yr ymgynghorwyd â Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych a bod y rheswm am y codiad mewn rhent a'r effaith ar Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai wedi'i esbonio'n llawn i'r grŵp
- roedd y Cabinet yn falch o nodi'r adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid yn arolwg STAR yn 2015 a ddychwelodd lefelau bodlonrwydd uchel o ran gwerth am arian rhent a ffioedd gwasanaeth a llongyfarchwyd y swyddogion yn hynny o beth
- roedd camau'n cael eu cymryd i godi rhent yn raddol er mwyn bodloni'r ffigurau rhent targed yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer rhenti tai cymdeithasol. Y codiad rhent a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru oedd 1.4% (CPI+1.5% a £2) a byddai 22% o denantiaid yn talu'r lefel rent darged yn 2016/17 - disgwylid y byddai'r holl denantiaid yn talu'r rhent targed llawn erbyn 2021.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2016/17 (Atodiad 1 yr adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Tai (Atodiad 2 i'r adroddiad);*

*(b)* *codi rhenti anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015 i rent wythnosol cyfartalog o £77.74 a fyddai'n dod i rym ar ddydd Llun 4 Ebrill 2016, a*

*(c)* *chodi rhenti modurdai'r Cyngor yn unol â'r cynnydd mewn rhenti ar gyfer anheddau'r Cyngor i £6.68 i Denantiaid y Cyngor ac £8.02 i Denantiaid eraill yr wythnos.*

## 10 DIWEDDARIAD AM ASESIAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith yr adroddiad yn amlinellu canfyddiadau Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 ar gyfer Sir Ddinbych (ynghlwm fel atodiad cyfrinachol i'r adroddiad) a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno'r

Asesiad i Lywodraeth Cymru ac i ddefnyddio dull rhanbarthol o chwilio am safleoedd i fodloni unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol i'r dyfodol.

Roedd gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad a darparu ar gyfer safleoedd pan oedd angen wedi'i nodi. Galwodd asesiad cynharach yn 2013 am safle tramwy ar y cyd i Gonwy a Sir Ddinbych oherwydd bod cyfran uchel o wersyllu anawdurdodedig yn digwydd yng ngogledd y sir ger y ffin. Cynhaliwyd asesiad ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ond byddai dogfennau ar wahân yn cael eu cyflwyno. Casglodd yr asesiad fod angen safle tramwy neu fan stopio yng ngogledd y sir ac roedd angen i'r Cyngor fynd i'r afael â'r angen hwnnw.

Yn ystod y ddadl a ddilynodd, codwyd cwestiynau mewn perthynas â'r cyfrifoldebau statudol ar awdurdodau lleol, y camau nesaf yn y broses, ac a fyddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i alluogi awdurdodau i fodloni eu rhwymedigaethau statudol. Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y darpariaethau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 mewn perthynas â Llety Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd bod rhai rhannau o'r Ddeddf, yn enwedig o ran sancsiynau i fethu bodloni unrhyw angen a nodwyd, heb fod mewn grym eto. Adroddodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu a Pholisi ar y bwriad i gydweithio gyda Chonwy i nodi safle addas a chynghorodd bod cyllid cyfyngedig Llywodraeth Cymru ar gael ond nad oedd yn cwmpasu costau caffael y safle. Er mwyn gwneud cais am gyllid, roedd angen caniatâd cynllunio ar safle wedi'i gaffael a chael cynllun prosiect manwl ar waith. Roedd gan Gonwy un safle parhaol ac roedd wedi clustnodi safle tramwy ond roedd y sefyllfa ddiweddaraf yn aneglur oherwydd y gwrthwynebiad lleol. Petai safle tramwy'n cael ei ddarparu, byddai gan y cyngor y grym i symud gwersyllfannau anawdurdodedig i'r safle hwnnw. Byddai'r angen dynodedig ar draws Cymru'n hysbys pan fydd yr holl asesiadau wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo –*

*(a) cyflwyno Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru, a*

*(b) defnyddio dull rhanbarthol o chwilio am safleoedd i fodloni unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol i'r dyfodol.*

## 11 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r diwygiadau canlynol –

- eitem ychwanegol ar Gau TAITH – Mawrth
- hen Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych – symudwyd o fis Mawrth i fis Ebrill/Mai

***PENDERFYNWYD*** *nodi Blaenraglen Waith y Cabinet*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod am yr eitemau busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y bydd*

*gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 12 DYFARNU CONTRACT AR GYFER GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl oherwydd bod un o'r tendrau wedi'i dynnu'n ôl. Roedd angen gwaith pellach ar y broses dendro erbyn hyn cyn ailgyflwyno i'r Cabinet.

## 13 DYFARNU CONTRACT GWASANAETH BWS LLEOL

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract gwasanaeth bws lleol yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Contract i'r tendrwr mwyaf manteisiol yn economaidd.

Tendrodd y Swyddogion ystod o ddewisiadau a bu modd i'r cyflenwyr gynnig am gontractau unigol neu ddau gontract neu'n fwy gyda'i gilydd. Y contract mwyaf manteisiol yn economaidd i'r cyngor wrth gynnal gwasanaethau cyn agosed â phosibl i'r rhai presennol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Roedd newid allweddol yn ymwneud â dargyfeirio rhai adnoddau i weithredu rhwng Corwen a Wrecsam a gafodd ei gynnig yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Diolchodd y Cynghorydd Huw Jones i'r Rheolwr Cludiant Teithwyr am ei holl waith caled yn hyn o beth a gofynnodd fod cyfarfod o'r Fforwm Defnyddwyr Bws yn cael ei drefnu ar ôl rhoi'r newidiadau ar waith er mwyn adolygu'r trefniant newydd a sicrhau ei fod yn gweithio'n dda.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarniad y contract gwasanaeth bws lleol i'r tendrwr mwyaf manteisiol yn economaidd fel y manylwyd yn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40 p.m.